# Asesiad tystiolaeth cyflym o'r defnydd o efelychwyr mewn gwaith dadansoddi perygl llifogydd

**Mae'r adroddiad hwn yn asesu sut mae efelychwyr yn cael eu defnyddio mewn gweithgareddau perygl llifogydd.**

## Dogfennau

Adroddiad efelychydd

## Adroddiad sy'n manylu ar asesiad tystiolaeth cyflym o’r defnydd o efelychwyr wrth ddadansoddi perygl llifogydd

## Crynodeb

Nod yr adroddiad hwn yw darparu asesiad tystiolaeth cyflym o sut mae efelychwyr yn cael eu defnyddio mewn gweithgareddau perygl llifogydd. Mae'n adolygu tystiolaeth a gwahanol ddulliau o ddefnyddio efelychydd.

Gellir ystyried efelychwyr fel "blwch du" - system lle mae'r mewnbynnau a'r allbynnau yn hysbys, ond lle mae gweithgarwch mewnol y model yn cael ei symleiddio trwy leihau eu cymhlethdod.

Cânt eu defnyddio yn helaeth ar gyfer modelu a dadansoddi perygl llifogydd. Ar gyfer set ddethol o werthoedd mewnbwn, maent yn darparu dull amgen yn lle defnyddio llawer o fodelau rhifiadol sy'n gofyn am lawer o adnoddau cyfrifiadurol.

Er y gall efelychwyr fod yn fwy effeithlon o ran adnoddau, gallant wneud gwallau. Felly, mae angen mwy o waith craffu a phrofi arnynt cyn y gellir eu mabwysiadu'n eang o fewn Asiantaeth yr Amgylchedd ac Awdurdodau Rheoli Risg eraill.

## Canfyddiadau

Mae prif ganfyddiadau ein hadolygiad yn nodi’r canlynol:

- bod gwahanol ffyrdd o ddatblygu efelychwyr sy'n dibynnu ar y terfynau rhagfynegol gofynnol a'r data sydd ar gael
- ar hyn o bryd defnyddir efelychwyr yn ehangach o fewn modelu arfordirol, o gymharu â modelu hydrolegol neu hydrolig
- mae galw cyfyngedig wedi bod am ddefnyddio efelychwyr i ystyried canlyniadau llifogydd, gan fod yr ardaloedd hyn eisoes yn gyfrifiadurol effeithlon

- mae'n bwysig ystyried cywirdeb ac ansicrwydd unrhyw efelychydd yng nghyd-destun y dadansoddiad cyffredinol
- defnyddiwyd efelychwyr ar gyfer dadansoddiadau perygl llifogydd mewn cyfuniad â dulliau eraill

## Casgliadau

Mae'r canfyddiadau yn darparu canllaw i'r rhai nad ydynt yn gyfarwydd â gweithio gydag efelychwyr ac a fyddai’n dymuno gwybod mwy am eu cymhwysiad a'u defnydd. Mae hefyd yn darparu tystiolaeth o sut a ble mae efelychwyr yn cael eu defnyddio mewn diwydiant ehangach. Ac mae'n darparu man cychwyn pe bai efelychwyr yn cael eu defnyddio mewn dadansoddiadau perygl llifogydd yn Asiantaeth yr Amgylchedd.

## Gwybodaeth am y Prosiect

Rheolwr y prosiect: Ian Perkins

Comisiynwyd y prosiect hwn gan Gyfarwyddiaeth FCRM Asiantaeth yr Amgylchedd, fel rhan o’r Gyd-raglen Ymchwil a Datblygu Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol.

## Metadata’r Prosiect

### Categori

Deall risgiau sy’n deillio o bob ffynhonnell o lifogydd

### Pynciau

Modelu. Arfordir. Dŵr wyneb. Afon

### Cod y prosiect

FRS19218a

### Dyddiad cychwyn:

Gorffennaf 2020

### Dyddiad cwblhau:

Mawrth 2021